Home Office

# Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) (Cymru a Lloegr) 2025

## Canllawiau ar gyfer ildio cleddyfau 'ninja' a hawlio iawndal.

Mawrth 2025

© Hawlfraint y Goron [2025]

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn NinjaSwordCompensation@homeoffice.gov.uk

# Cynnwys


Crynodeb o'r Cynllun Ildio ac Iawndal ar gyfer Cleddyfau 'ninja' 2

1.Cymhwysedd 6

2.Hawl (lefel yr iawndal sy'n daladwy) 6

3.Sut i ildio 7

4.Sut i hawlio iawndal 7

5.Beth sy'n digwydd nesaf? 8

6.Dewch i Gyswllt 9

7.Trin Data 9

Atodiad A: Mathau o Gleddyfau Ninja

Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd

Atodiad C: Rhestr wirio ar gyfer manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ildio mewn swmp

Atodiad D: Ffurflen Hawlio Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja

## Crynodeb o'r Cynllun Ildio ac Iawndal ar gyfer cleddyfau 'ninja'

Mae Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) 2025 yn ychwanegu cleddyfau ninja at y rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig y mae adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988 yn berthnasol iddynt. Gellir dod o hyd i ddolen i'r rhestr o arfau ymosodol gwaharddedig yma: www.legislation.gov.uk/uksi/1988/2019.

Bydd y trefniadau Ildio ac Iawndal, a nodir yn y canllawiau hyn, yn gymwys yng Nghymru a Lloegr mewn perthynas â chleddyfau Ninja sydd wedi'u gwahardd o dan Ran 2 o'r Gorchymyn.

Os oes gennych gleddyf ninja ar hyn o bryd, ni chaniateir i chi ei gadw unwaith bydd y darpariaethau perthnasol yn y Gorchymyn yn cael eu cychwyn ar 1 Awst 2025 oni bai bod amddiffyniad cyfreithiol penodol yn berthnasol. Os ydych yn dymuno hawlio iawndal pan fyddwch chi'n ildio'r eitem, rhaid i chi ei ildio i orsaf heddlu ddynodedig. Mae'r cynllun Ildio ac Iawndal yn caniatáu i chi hawlio iawndal os ydych yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd ac yn gwneud hawliad yn unol â'r trefniadau a nodir yn y canllawiau hyn a Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) 2025.

Os ydych chi'n hawlio iawndal am gleddyf ninja, mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn berchennog cyfreithlon neu wedi contractio i'w gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025** a bydd angen i chi ddarparu prawf derbyniol fel derbynneb prynu neu anfoneb. Os nad ydych yn gallu darparu derbynneb prynu neu anfoneb, rhaid i chi ddarparu rhyw fath o dystiolaeth o berchnogaeth ac esboniad o'r hyn rydych chi'n ei ddarparu.

Y swm iawndal safonol ar gyfer pob arf a ildiwyd fydd £5, fodd bynnag, bydd ymgeiswyr yn gallu hawlio gwerth eu harf os yw'n fwy na'r swm hwn. I hawlio gwerth uwch, bydd angen i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o'r gwerth fel derbynneb, anfoneb neu dystiolaeth arall o werth yr arf.

Rhaid gwneud hawliadau am iawndal ar yr un pryd ag ildio'r arf.

Os ydych chi'n berchennog cleddyf Ninja, eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod chi'n ei gludo'n ddiogel i bin ildio neu orsaf heddlu ddynodedig (lle mae'n briodol) a'i ildio i'r heddlu ac, os ceisiwch iawndal ariannol, cyflwynwch eich hawliad ar yr un pryd ag ildio'ch eitem(au).

Ni fydd yn bosibl ceisio iawndal ar unrhyw adeg ar ôl i chi ildio'ch eitem, nac ar unrhyw adeg ar ôl i'r cynllun ildio ac iawndal gau. **Bydd y cynllun yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2025, 00:00 o'r gloch ac yn cau ar 31 Gorffennaf 2025 am 23:59 o'r gloch.**

### Pa eitemau fydd yn cael eu gwahardd?

(u) yr arf a elwir weithiau'n "cleddyf ninja"

Sef cleddyf gyda—

(i) llafn y mae ei hyd o leiaf 14 modfedd, ond dim mwy na 24 modfedd (hyd y llafn yw'r pellter llinell syth o ben yr handlen i flaen y llafn),
(ii) prif ymyl torri syth,
(iii) ymyl torri syth eilaidd,
(iv) cefn di-fîn, a
(v) naill ai pwynt arddull tanto neu bwynt arddull tanto gwrthdroedig.

At ddibenion paragraff 1(u)(iv) a’r paragraff hwn mae mae asgwrn cefn yn ddi-fin os nad yw wedi'i addasu i dorri.

At ddibenion paragraff 1(u)(v)— mae gan gleddyf bwynt arddull tanto os—

(i) mae'r ongl rhwng ei brif ymyl torri syth a'i ymyl torri syth eilaidd yn fwy na 90 gradd, a
(ii) mae'r ongl rhwng ei ymyl torri syth eilaidd a'i gefn yn llai na 90 gradd.

Mae gan gleddyf bwynt arddull tanto gwrthdro os—

(i) mae'r ongl rhwng ei brif ymyl torri syth a'i ymyl torri syth eilaidd yn llai na 90 gradd, a
(ii) mae'r ongl rhwng ei ymyl torri syth eilaidd a'i asgwrn cefn yn fwy na 90 gradd.

At ddibenion paragraff 1(u)(ii) a (iii) a'r paragraff hwn—

(a) prif ymyl torri syth yw ymyl torri hiraf llafn sy'n cysylltu ar unwaith â'r handlen.

(b) mae ymyl dorri syth eilaidd yn ymyl dorri—

(i) sy'n ffurfio ongl gyda'r ymyl dorri syth sylfaenol a'r asgwrn cefn, a
(ii) nad yw'n fwy na 5% yn hirach neu'n fyrrach na lled y llafn yn syth ar ôl yr handlen.

## A fydd yn rhaid i chi ildio eich eitem(au))?

Unwaith i’r darpariaethau yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) 2025 ddod i rym, bydd yn drosedd i fod yn berchen ar gleddyf ninja oni bai bod amddiffyniad cyfreithiol penodol yn gymwys. Bydd gweithgynhyrchu, mewnforio, gwerthu a chyflenwi'r eitemau hyn hefyd yn cael ei wahardd. Fodd bynnag, cyn iddyn nhw gael eu gwahardd, mae'r Gorchymyn yn caniatáu i berchnogion cyfreithlon yr eitemau eu hildio mewn gorsaf heddlu dynodedig a hawlio iawndal am eu colled os y dymunant. Mae'r canllawiau hyn yn nodi sut i ildio'r eitem(au) i'r heddlu a sut i hawlio iawndal. Dim ond os mai chi oedd y perchennog cyfreithlon neu os gawsoch eich contractio i'w gaffael ar neu cyn ddyddiad cau **27 Mawrth 2025 y** gellir hawlio iawndal. Bydd angen i berchnogion nad sy’n dymuno hawlio iawndal ac sydd heb sail gyfreithlon i gadw'r cleddyf gael gwared arnyn nhw’n gyfrifol cyn i'r ddeddfwriaeth ddod i rym er mwyn osgoi cyflawni trosedd.

## Beth yw'r cyfnod ildio?

Cyfnod o fis (31 diwrnod) yw hwn lle byddwch yn gallu ildio'ch cleddyfau ninja mewn gorsaf heddlu ddynodedig. Dim ond os byddwch chi'n ildio'ch eitem(au) yn ystod y cyfnod ildio ac yn cyflwyno hawliad am iawndal mewn gorsaf heddlu ddynodedig ar yr un pryd. Gellir hawlio iawndal os byddwch chi'n ildio'ch eitem/eitemau yn ystod y cyfnod ildio ac yn cyflwyno hawliad am iawndal mewn gorsaf heddlu ddynodedig ar yr un pryd.

## Pryd fydd y cyfnod ildio yn dechrau?

Bydd y cyfnod ildio yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2025, 00:00 o'r gloch y diwrnod y daw Rhan 4 Gorchymyn Ildio Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) (Cymru a Lloegr) 2025 i rym, oherwydd bydd y gorchymyn hwn yn darparu'r fframwaith gyfreithiol ar gyfer yr iawndal am eitemau a ildiwyd.

## Pryd fydd y cyfnod ildio yn dod i ben?

Bydd y cyfnod ildio yn para am gyfnod o fis (31 diwrnod), gan ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2025 am 23:59 o'r gloch.

## Beth i'w wneud os ydych chi'n berchen ar Gleddyf(au) Ninja

**Mae'r trefniadau hyn mewn perthynas â chleddyfau ninja yn berthnasol yng Nghymru a Lloegr yn unig.** Os ydych chi'n berchen ar eitem sy'n dod o dan y diffiniad o gleddyf ninja fel y disgrifir yn y ddeddfwriaeth, byddwch yn gallu ildio'r eitem hon mewn gorsaf heddlu ddynodedig a hawlio iawndal. Rhaid i chi gludo'ch eitem yn ddiogel yn unol â'r canllawiau isod. Gallwch ddod o hyd i'ch gorsaf heddlu ddynodedig agosaf trwy wirio gwefan gov.uk neu drwy gysylltu â'ch heddlu lleol. Er mwyn hawlio iawndal, bydd angen i chi lawrlwytho'r ffurflen hawlio o gov.uk a chwblhau **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja a** throsglwyddo hyn i'r heddlu pan fyddwch chi'n ildio'r eitem(au). Rhaid i chi ddarparu prawf prynu neu dystiolaeth arall i brofi eich bod yn meddu ar neu wedi eich contractio i gaffael yr eitem cyn y dyddiad cau'. **Ceir rhagor o fanylion yn adran 1.**

**Os ydych chi am gael gwared ar gleddyf ninja heb hawlio iawndal neu heb fynd i orsaf heddlu, byddwn hefyd yn darparu trefniadau amgen. Bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi mewn dogfen ar wahân.**

## Beth sy'n digwydd os nad ydych chi'n ildio eitem yn ystod y cyfnod ildio?

Unwaith y daw'r cyfnod ildio i ben am 23:59 o’r gloch ar 31 Gorffennaf 2025, bydd cleddyfau ninja’n cael eu gwahardd. Os ydych chi'n dal i fod â’r eitemau hyn yn eich meddiant ar y pwynt hwn, bydd eich meddiant yn dod yn anghyfreithlon oni bai bod gennych amddiffyniad. Unwaith bydd y cynllun ildio yn cau, byddwch yn dal i allu ildio'r eitemau i'r heddlu neu gael gwared ar gleddyf mewn bin ildio, ond ni fyddwch yn gallu hawlio iawndal am golli'r eitem.

## A oes angen i chi lenwi ffurflen hawlio cynllun ildio ac iawndal os nad ydych yn ceisio iawndal?

Os nad ydych yn ceisio iawndal, ond yn ildio eitem, gofynnwn i chi gwblhau Rhan D yn unig i nodi nad ydych yn ceisio iawndal ar **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja** heb unrhyw fanylion personol a banc a chyflwyno hyn i'r heddlu pan fyddwch yn ildio eich eitem. Mae manylion ynglŷn â sut i gyrchu'r ffurflenyma.

## Beth i'w wneud os oes gennych unrhyw ofynion arbennig neu anghenion hygyrchedd.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig neu anghenion hygyrchedd a allai effeithio ar eich gallu i ildio eich eitem(au), dylech gysylltu â'ch heddlu lleol i drafod.

## Beth i'w wneud os ydych chi'n meddwl bod eich Cleddyfau Ninja yn dod o dan un o'r amddiffynfeydd a ddarperir yn y ddeddfwriaeth?

Mae hen bethau wedi'u heithrio rhag effaith y Gorchymyn, ac felly nid yw'n drosedd i fod yn berchen ar yr arfau hyn os ydynt yn hen bethau – a weithgynhyrchwyd fwy na 100 mlynedd cyn y dyddiad y cyflawnir y drosedd mewn perthynas ag Adran141 – Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988.

Nid yw'n ofynnol i chi ildio'ch arf os yw'n dod o dan un o'r amddiffynfeydd. Os ydych chi'n cael eich cyhuddo o drosedd, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r amddiffyniad rydych chi'n dibynnu arni. Yn y pen draw, penderfyniad y llys fydd hi i weld a oes digon o dystiolaeth gyda chi i gefnogi'ch dadl bod gennych amddiffyniad.

## Amddiffynfeydd

Mae amddiffynfeydd wedi'u rhestru yn adran 141 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 a Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988. Nid yw pob amddiffyniad yn berthnasol i bob eitem, a dylid nodi nad yw'r amddiffynfeydd am resymau crefyddol sy'n berthnasol i gleddyfau crwm yn berthnasol i gleddyfau ninja. Mae'r manylion a nodir isod yn grynodeb ac mae'n cynnwys geiriad llawn yr amddiffynfeydd i'w gweld yn y ddeddfwriaeth berthnasol:

Adran141 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988

www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/33/section/141

Gorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.

www.legislation.gov.uk/uksi/1988/2019

i. Pan fod y meddiant at ddibenion swyddogaethau a gyflawnir ar ran y Goron neu lu sy'n ymweld.
ii. Lle mae'r arf yn un o bwysigrwydd hanesyddol.

iii. Pan ei fod ym meddiant person yn rhinwedd ei swydd fel gweithredwr amgueddfa neu oriel, neu fel person sy'n gweithredu ar ran amgueddfa neu oriel.
iv. Lle mae ei feddiant at ddibenion addysgol yn unig.
v. Pan fod meddiant at ddibenion gwneud yr arf ar gael ar gyfer perfformiadau theatrig a chynhyrchu ffilmiau a rhaglenni teledu yn unig.
vi. Lle mae meddiant at ddibenion yn unig o sicrhau bod yr arf ar gael ar gyfer gweithgaredd a ganiateir neu gymryd rhan ynddo – h.y. ail-greu hanesyddol neu weithgaredd chwaraeon.
vii. Lle gwnaethpwyd yr arf â llaw.
viii. Lle mae'r arf dan sylw yn ddi-fîn.

## 1. Cymhwysedd

I fod yn gymwys i wneud cais am iawndal, rhaid i chi fod wedi bod yn berchennog cyfreithlon ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025** a bydd angen i chi ddarparu prawf derbyniol fel derbynneb prynu neu anfoneb. Os nad ydych yn gallu darparu derbynneb prynu neu anfoneb, rhaid i chi ddarparu rhyw fath o dystiolaeth o berchnogaeth ac eglurhad o'r hyn rydych chi'n ei ddarparu. Bydd angen i chi hefyd lofnodi Rhan F - Datganiad o'r ffurflen hawlio sy'n cadarnhau mai chi yw perchennog cyfreithlon yr eitem a'i bod wedi'i gaffael yn gyfreithlon, wrth lenwi **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja.**

Rhaid i chi ildio'r eitem(au) i'r heddlu yn ystod y cyfnod ildio, yn unol â'r canllawiau hyn. **Bydd y cynllun yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2025, 00:00 o'r gloch ac yn cau ar 31 Gorffennaf 2025 am 23:59 o'r gloch.**

Ceisir iawndal trwy gyflwyno **Ffurflen Hawlio Cynllun Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja wedi**'i chwblhau i'r heddlu. Rhaid cwblhau hyn ymlaen llaw a'i gyflwyno i'r heddlu, gydag unrhyw ddogfennaeth ategol, ar adeg yr ildio. **Darperir rhagor o fanylion yn adran 4.**

## 2.Hawl (lefel yr iawndal sy'n daladwy)

Y swm iawndal safonol ar gyfer pob arf a ildiwyd fydd £5, er y bydd ymgeiswyr yn gallu hawlio gwerth eu harf os yw'n fwy na'r swm hwn. Dyma'r isafswm iawndal bydd y Swyddfa Gartref yn ei dalu i berchnogion cyfreithlon eitemau sy'n cael eu ildio i orsaf heddlu ddynodedig o dan y cynllun hwn. Os ydych chi'n ystyried bod eich eitem yn werth mwy na'r lefel iawndal a nodwyd, bydd angen i chi ddarparu prawf prynu (e.e. derbynneb prynu neu anfoneb) neu dystiolaeth arall o werth yr arf y mae'n rhaid ei gyflwyno ar adeg ildio'r eitem i'r heddlu. Bydd y dystiolaeth hon wedyn yn cael ei hanfon ymlaen i'r Swyddfa Gartref i'w hystyried. **Darperir rhagor o fanylion yn**Adran 5**.**

Ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy mewn perthynas â hawliad oni bai mai chi oedd y perchennog cyfreithlon ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025.**

## 3.Sut i ildio

Yn ystod y cyfnod ildio un mis (31 diwrnod), byddwch yn gallu ildio'ch arf i orsaf heddlu ddynodedig. Gallwch ddarganfod eich gorsaf heddlu ddynodedig agosaf trwy edrych ar wefan gov.uk.

Os ydych chi'n fanwerthwr neu'n aelod o'r cyhoedd sy'n bwriadu ildio sawl eitem ar yr un pryd (mwy na 10 eitem). **Rhaid i chi gysylltu â'r orsaf heddlu ddynodedig** ymlaen llaw i weld a fyddai'n well gan yr heddlu eich bod chi'n gwneud apwyntiad penodol i fynychu'r orsaf heddlu. Dylech gydymffurfio â chyfarwyddyd yr heddlu ar sut i becynnu a selio llwythi mawr.

**Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i wneud unrhyw eitem(au) rydych chi'n ildio'n ddiogel i'w trin wrth deithio i'r orsaf heddlu a thra ar safle'r heddlu.** Dylid gwneud eitemau'n ddiogel i'w trin i chi'ch hun ac i'r heddlu a rhaid iddyn nhw gael eu cynnwys mewn modd sy'n caniatáu iddyn nhw gael eu cludo heb achosi trallod neu fraw i aelodau eraill o'r cyhoedd, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd a allai fod yn yr orsaf heddlu ddynodedig.

Rhaid lapio eitemau a'u rhoi mewn bag neu flwch wedi'i selio. **Ni ddylid eu cario'n agored ar unrhyw adeg.** Mae cario eitemau â llafn yn gyhoeddus heb reswm da neu awdurdod cyfreithlon yn drosedd. Bydd cario'r eitemau yn unol â'r cyfarwyddiadau hyn ac ynghyd â'r ffurflen hawlio yn caniatáu i chi honni bod gennych 'reswm da,' sef eich bod ar fin ildio'r eitemau yn eich gorsaf heddlu ddynodedig agosaf, os cewch eich stopio gan yr heddlu.

Unwaith y byddwch yn yr orsaf heddlu, rhaid i chi beidio â thynnu'r eitem allan nes y gofynnir i chi wneud hynny gan swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu.

Os ydych chi am gael gwared ar gleddyf ninja heb hawlio iawndal a mynychu gorsaf heddlu ddynodedig, bydd canllawiau pellach ar drefniadau amgen yn cael eu cyhoeddi cyn y cyfnod ildio ac iawndal.

## 4.Sut i hawlio iawndal

**Rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen hawlio, gan gynnwys tystiolaeth eich bod wedi bod yn berchennog cyfreithlon yr arf neu wedi contractio i'w gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o 27 Mawrth 2025 a phrawf prynu fel derbynneb prynu, anfoneb neu dystiolaeth arall o werth yr arf** i'r heddlu ar yr un pryd y byddwch yn ildio eitemau mewn gorsaf heddlu ddynodedig; ni dderbynnir ceisiadau am iawndal a gyflwynwyd ar adeg wahanol neu ar ddyddiad diweddarach. Dylech adolygu'r rhestr o arfau sy'n destun gwaharddiad cyffredinol a sicrhau eich bod yn deall pa rai sy'n gymwys i gael iawndal, pe baech yn dymuno gwneud hawliad. Os digwydd i chi ddod ag eitem sydd eisoes wedi'i gwahardd ac nad yw wedi'i chwmpasu gan y cynllun i orsaf heddlu, bydd gofyn ichi ildio'r eitem, efallai y byddwch yn wynebu cyhuddiadau am ei meddiannu ac ni fyddwch yn gallu hawlio iawndal. Os byddwch yn dod ag eitem nad yw wedi'i gwahardd, ni fyddwch yn gymwys i gael iawndal a gallwch

ofyn i'r arf gael ei ddychwelyd atoch neu gallwch ddewis ildio'r arf heb iawndal, y tu allan i'r cynllun.

Bydd angen i chi hefyd ddod â thystiolaeth gyda chi i gadarnhau eich hunaniaeth (fel pasbort neu drwydded yrru ddilys) a, lle mae’n bosibl, tystiolaeth i sefydlu mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem(au) rydych chi'n ildio. Os yw'n anodd i'r perchennog cyfreithiol fynychu gorsaf heddlu a'ch bod yn ildio eitemau ar eu rhan, rhaid i chi ddod â thystiolaeth i gadarnhau eu hunaniaeth, eu caniatâd i chi ildio'r eitem a, lle bo hynny ar gael, tystiolaeth o brawf prynu'r eitem(au).

Bydd yr heddlu yn cymryd camau i wirio eich perchnogaeth a'ch cymhwysedd o dan y cynllun, gan gynnwys gwirio bod yr eitem rydych chi'n ildio yn un a gwmpesir o dan y cynllun. Yna bydd yr heddlu yn cymryd meddiant o'r eitem(au) ac yn rhoi copi o'ch ffurflen hawlio i chi fel derbynneb os ydych chi'n ceisio iawndal. Mae'r dderbynneb yn rhoi rhif cyfeirnod unigryw i chi mewn perthynas â'r eitem(au) rydych chi'n eu ildio at ddibenion olrhain yr hawliad iawndal. Rhaid i chi gadw'r rhif cyfeirnod unigryw hwn yn ddiogel, gan y gallai fod ei angen yn ddiweddarach os yw'r Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch hawliad.

Bydd eich ffurflen hawlio iawndal a'ch dogfennau ategol wedyn yn cael eu hanfon ymlaen gan yr heddlu i'r Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei ystyried. Bydd y Swyddfa Gartref yn cysylltu â chi unwaith bydd yr hawliad wedi cael ei ystyried.

Er bod yr heddlu wedi derbyn eich eitem(au) ildio a'ch ffurflen hawlio iawndal, dyw hynny ddim o reidrwydd yn sicrhau y byddwch yn derbyn iawndal. Bydd eich hawliad yn cael ei ystyried gan y Swyddfa Gartref.

Mae'r Rhestrau Gwirio a ddarperir yn Atodiad B ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd â llai na 10 eitem ac mae Atodiad C ar gyfer manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd gyda mwy na 10 eitem. Gall hyn eich helpu i sicrhau eich bod wedi cwblhau'r holl gamau sydd eu hangen i ildio'ch eitem(au) yn llwyddiannus.

## 5. Beth sy'n digwydd nesaf?

Os ydych chi'n ildio eitem neu eitemau, ond nad ydych yn ceisio iawndal, unwaith y bydd yr heddlu wedi cymryd meddiant o'ch eitem(au) neu ddefnyddio bin ildio, mae'r broses ildio wedi'i chwblhau. Bydd eich eitem(au) yn cael eu gwaredu o dan weithdrefnau gweithredol arferol yr heddlu.

Os ydych chi'n ildio eitem neu eitemau ac yn ceisio iawndal, unwaith bydd yr heddlu wedi cymryd meddiant o'ch eitem(au) byddant yn cadw'r eitem(au) nes bod eich hawliad am iawndal wedi'i benderfynu, oni bai bod yr eitem honno yn peri risg i ddiogelwch. Ar ôl penderfynu, bydd yr eitem(au) yn cael eu gwaredu o dan weithdrefnau gweithredol arferol yr heddlu neu lle mae'n peri risg diogelwch efallai y bydd angen ei ddinistrio yn gynt.

Os ydych wedi ildio eitem ac yna penderfynir nad yw'r eitem yn dod mewn i ddiffiniad cleddyf ninja ac nid yw'n cael ei wahardd gan ddeddfwriaeth arall sydd i'w gweld yma: www.legislation.gov.uk/uksi/1988/2019, dylai'r heddlu ddychwelyd eich eitem atoch neu byddan nhw'n cysylltu â chi i drefnu dychwelyd eich eitem. Os nad ydych yn dymuno cadw'r eitem mwyach, gallwch gyfarwyddo'r heddlu i gael gwared ohono.

Os ydych wedi ildio eitem a'ch bod yn ceisio am iawndal ac wedi nodi hyn ar y **Ffurflen Hawlio Cleddyf Ninja,** bydd eich ffurflen a'ch dogfennaeth ategol a gyflwynwyd i'r heddlu, yn cael eu hanfon ymlaen gan yr heddlu i'r Swyddfa Gartref lle bydd yn cael ei hystyried.

Os penderfynir am unrhyw reswm nad ydych yn gymwys i gael iawndal, byddwch yn cael eich hysbysu am hyn ynghyd â'r rhesymau dros y penderfyniad.

Os oes angen i'r Swyddfa Gartref gysylltu â chi mewn perthynas â'ch hawliad, er enghraifft i egluro manylion ar y ffurflen neu i drafod y dystiolaeth o werth rydych chi wedi'i chyflwyno, byddan nhw'n defnyddio'r manylion cyswllt a roesoch ar y ffurflen hawlio.

## 6. Dewch i Gyswllt

Os oes gennych ymholiad mewn perthynas â'ch hawliad, gallwch anfon hwn at dîm gwaith achos y Swyddfa Gartref drwy e-bost yn NinjaSwordCompensation@homeoffice.gov.uk

Os yw'n ymwneud â hawliad a wnaethoch eisoes, rhowch eich enw llawn a'ch rhif cyfeirnod hawliad unigryw.

## 7. Trin Data


Gellir dod o hyd i Siarter Gwybodaeth Bersonol y Swyddfa Gartref ynglŷn â sut yr ydym yn edrych ar ôl eich gwybodaeth yma: https://www.gov.uk/government/organisations/home-office/about/personal-information-charter.

## Atodiad A: Mathau o Gleddyfau Ninja

**Nodweddion eitemau a fydd yn cael eu gwahardd gan y ddeddfwriaeth.**




**Prif Ymyl Torri Syth**





**Ymyl Torri Syth Eilaidd**





**Pwynt Arddull Tanto**

***Sylwch fod gan bwynt arddull tanto ongl o fwy na 90 gradd rhwng ei brif ymyl torri syth a'i ymyl torri syth eilaidd, ac mae'r ongl rhwng ei ymyl torri syth eilaidd a'r asgwrn cefn blunt yn ongl o lai na 90 gradd.**

**Yn y llun cyntaf hwn gyda'r protractor, mae'r ongl rhwng y brif ymyl torri syth a'r ymyl torri eilaidd oddeutu 136 gradd (dros 90 gradd).**



**Yn yr ail lun hwn gyda'r protractor, mae'r ongl rhwng yr ymyl torri syth eilaidd ac asgwrn cefn di-fîn y llafn oddeutu 47 gradd (o dan 90 gradd).**







**Pwynt arddull tanto gwrthdro**

***Sylwer fod gan bwynt arddull tanto gwrthdro ongl o lai na 90 gradd rhwng ei brif ymyl torri syth a'i ymyl torri syth eilaidd, ac mae'r ongl rhwng ei ymyl torri syth eilaidd a'r asgwrn cefn blunt yn ongl o fwy na 90 gradd. Bydd mesuriadau'r onglau yn y gwrthwyneb i'r rhai yn y lluniau uchod ar gyfer y pwynt arddull tanto.**

## Enghreifftiau o fathau o gleddyf a fydd yn cael eu gwahardd gan y ddeddfwriaeth.

Mae'r rhain yn gleddyfau gyda llafnau rhwng 14" a 24", prif ymyl torri syth, ymyl torri eilaidd syth a phwyntiau arddull tanto.





## Enghreifftiau o fathau o gleddyfau sydd eisoes wedi'u gwahardd gan y ddeddfwriaeth cyllell / machete arddull zombie.


Mae'r ddau gleddyf hyn eisoes wedi'u gwahardd oherwydd bod ganddynt ymyl dorri plaen, pennau pigfain miniog, llafnau dros 8" o hyd a mwy nag un twll yn y llafn ac felly yn dod o dan y diffiniad o eitem waharddedig a restrir yn (sa) ac 1A yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988 sy'n gwahardd cyllyll arddull zombie a machetes arddull zombie.





## Enghraifft o fath o gleddyf sydd eisoes wedi'i wahardd gan y ddeddfwriaeth cleddyf crwm.

Mae cleddyfau math Katana eisoes wedi'u gwahardd ac yn dod o dan y diffiniad o eitem waharddedig a restrir yn (r) yn yr Atodlen i Orchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) 1988.



## Atodiad B: Rhestr wirio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd

Ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy mewn perthynas â hawliad oni bai eich bod wedi bod yn berchennog cyfreithlon neu wedi eich contractio i'w gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025.**

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | A yw'ch arf yn gymwys ac a gafodd ei gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o 27 Mawrth 2025? Bydd Atodiad A o'r canllawiau yn eich helpu i ateb y cwestiwn hwn. Os taw 'na' yw'ch ateb i'r cwestiwn, yna ewch i gam 2; os taw 'ie' yw'ch ateb i'r cwestiwn yna ewch i gam 3. |
| **Cam 2** | Os nad yw'ch arf yn gymwys o dan y cynllun hwn, gallwch ei ildio i'r heddlu o hyd, ond ni allwch hawlio iawndal. |
| **Cam 3** | Os yw gwerth eich hawliad arfaethedig yn £5 neu fwy, a ydych yn dymuno hawlio iawndal ariannol am werth yr eitem(au) rydych chi'n ildio? Os taw 'na' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn, ewch i gam 4. Os taw 'ie' yw eich ateb i'r cwestiynau yna ewch i gam 5. |
| **Cam 4** | Os nad ydych yn dymuno hawlio iawndal, dylech gwblhau adran D o'r ffurflen iawndal i gadarnhau - does dim rhaid i chi roi unrhyw fanylion personol i wneud hyn. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen gan gov.uk neu, os nad yw hyn yn bosibl, gallwch ofyn am ffurflen drwy e-bost yn: NinjaSwordsCompensation@homeoffice.gov.uk. Yna dylech fynd â'ch arf a'r ffurflen wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 8 isod) gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon am ei gadw'n ddiogel yn ystod teithio. |
| **Cam 5** | Os hoffech hawlio iawndal, a ydych yn derbyn y gwerth safonol hwnnw o £5 yr eitem. Os taw 'ie' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn, ewch i gam 6. Os taw 'na' yw eich ateb i'r cwestiwn, yna ewch i gam 7. |
| **Cam 6** | Os ydych chi'n derbyn gwerth safonol yr iawndal, rhaid i chi lenwi pob adran o'r ffurflen hawlio iawndal. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk. Dylech fynd â'ch arf a'r ffurflen hawlio wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 8 isod). Gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon am gadw'r arf yn ddiogel wrth deithio. |
| **Cam 7** | Os nad ydych yn derbyn gwerth safonol y iawndal ac yn dymuno ceisio am swm gwahanol, rhaid i chi lenwi pob adran o'r ffurflen hawlio iawndal a rhoi prawf h.y. derbynneb neu anfoneb ar gyfer y gwerth uwch rydych chi'n ei hawlio. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk. Yna dylech fynd â'ch arfau a'r ffurflen hawlio wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 8 isod). Gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon am storio diogel yn ystod teithio. |
| **Cam 8** | Ydych chi'n gallu teithio i orsaf heddlu ddynodedig? Gallwch ddod o hyd i'r orsaf heddlu ddynodedig agosaf i chi trwy edrych ar y rhestr ar gov.uk. Os gallwch chi deithio i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 10. Os nad ydych chi'n gallu teithio eich hun i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 9. |

| | |
|---|---|
| **Cam 9** | Os na allwch deithio i orsaf heddlu ddynodedig, gallwch ofyn i rywun arall wneud hyn i chi. Dylech roi eich ffurflen hawlio wedi'i chwblhau, yr arf rydych chi'n ei ildio, prawf prynu fel derbynneb neu anfoneb ac os yn bosibl, ynghyd ag awdurdodiad ysgrifenedig i'r person hwnnw ildio'ch arf ar eich rhan. Bydd angen iddyn nhw gymryd rhyw fath o ddogfennaeth adnabod gyda nhw. Rhaid iddyn nhw ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynglŷn â chadw arfau yn ddiogel wrth deithio ac yn yr orsaf heddlu. Nawr ewch i gam 10. |
| **Cam 10** | Gallwch chi, neu'ch cynrychiolydd awdurdodedig ildio'ch arf mewn gorsaf heddlu ddynodedig, gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon am gadw'r arf yn ddiogel wrth deithio ac yn yr orsaf heddlu, a dilyn cyfarwyddiadau a roddir gan yr heddlu. Rhoddir rhif cyfeirnod unigryw i chi neu'ch cynrychiolydd y dylech ei gadw'n ddiogel i'w ddefnyddio yn y dyfodol. |
| **Cam 11** | Bydd y Swyddfa Gartref yn dod i gyswllt â chi cyn gynted â phosibl ynglŷn â'ch hawliad iawndal. |

## Atodiad C: Rhestr wirio ar gyfer manwerthwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n ildio arfau mewn swmp

Ni fydd unrhyw iawndal yn daladwy mewn perthynas â hawliad oni bai eich bod wedi bod yn berchennog cyfreithlon neu wedi eich contractio i'w gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025.**

| | |
|---|---|
| **Cam 1** | A yw'r arfau ymosodol rydych chi'n eu hildio (mwy na 10 eitem) yn gymwys? Bydd Atodiad A o'r canllawiau yn eich helpu i ateb y cwestiwn hwn. Os taw 'na' yw eich ateb i'r cwestiwn hwn, yna ewch i gam 2; os yw 'ie' yw eich ateb i'r cwestiwn yna ewch i gam 3. |
| **Cam 2** | Os nad yw'r arfau (mwy na 10 eitem) yn gymwys o dan y cynllun hwn, gallwch eu hildio i'r heddlu o hyd, ond ni allwch hawlio iawndal. |
| **Cam 3** | Os yw'r arfau rydych chi'n ildio'n gymwys, dylech gysylltu â'r heddlu ymlaen llaw os ydych chi'n bwriadu ildio'r arfau ar un adeg (mwy na 10 arf) i weld a fyddai'n well gan yr heddlu eich bod chi'n gwneud apwyntiad penodol i fynychu'r orsaf heddlu. |
| **Cam 4** | Ydych chi'n dymuno hawlio iawndal ariannol am werth yr arfau rydych chi'n eu hildio? Os taw 'na' yw eich ateb i'r cwestiwn, yna ewch i gam 5. Os yaw 'ie' yw eich ateb i'r cwestiwn, yna ewch i gam 6. |
| **Cam 5** | Os nad ydych yn dymuno hawlio iawndal, dylech barhau i gwblhau adran B o'r ffurflen iawndal i gadarnhau - does dim rhaid i chi roi unrhyw fanylion personol i wneud hyn. Byddai angen i chi gysylltu â'r heddlu ymlaen llaw i weld a fyddai'n well gan yr heddlu wneud apwyntiad penodol i chi fynychu'r orsaf heddlu i fynd â'r arfau a'r ffurflen wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig (gweler 10 isod) yn dilyn y canllawiau yn y ddogfen hon n â chadw arfau'n ddiogel yn ystod teithio. |
| **Cam 6** | Os hoffech hawlio iawndal, a ydych yn derbyn y gwerth safonol hwnnw o £5 yr arf? Os taw 'ie' yw eich ateb i''r cwestiwn hwnnw, ewch i gam 7. Os taw 'na' yw eich ateb i'r cwestiwn yna ewch i gam 8. |
| **Cam 7** | Os ydych chi'n derbyn gwerth safonol yr iawndal, rhaid i chi lenwi pob adran o'r ffurflen hawlio iawndal a darparu prawf prynu fel derbynneb neu anfoneb. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk. Dylech fynd â'r arfau a'r ffurflen hawlio wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig ar ôl i chi drefnu gyda'r heddlu i ildio (gweler 10 isod). Gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon am gadw arfau'n ddiogel wrth deithio. |
| **Cam 8** | Os nad ydych yn derbyn gwerth safonol iawndal ac yn dymuno ceisio swm gwahanol, rhaid i chi lenwi pob adran o'r ffurflen hawlio iawndal a darparu prawf prynu fel derbynneb neu anfoneb o'r gwerth uwch rydych chi'n ei hawlio. Dylech lawrlwytho copi o'r ffurflen o gov.uk. Yna dylech fynd â'r arfau a'r ffurflen hawlio wedi'i chwblhau i orsaf heddlu ddynodedig ar ôl i chi wneud trefniadau gyda'r heddlu i ildio (gweler 10 isod). N ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynglŷn â chadw arfau'n ddiogel wrth deithio. |

| | |
|---|---|
| **Cam 9** | Ydych chi'n gallu teithio i orsaf heddlu ddynodedig? Gallwch ddod o hyd i'r orsaf heddlu ddynodedig agosaf i chi trwy edrych ar y rhestr ar gov.uk. Os gallwch chi deithio i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 11. Os na allwch deithio eich hun i orsaf heddlu ddynodedig, ewch i gam 10. |
| **Cam 10** | Os na allwch deithio i orsaf heddlu ddynodedig, gallwch ofyn i rywun arall wneud hyn i chi. Dylech roi eich ffurflen hawlio wedi'i chwblhau, yr arfau rydych chi'n eu hildio, tystiolaeth o werth os yw'n briodol ac os yn bosibl, ynghyd ag awdurdodiad ysgrifenedig i'r person hwnnw ildio'ch arfau ar eich rhan. Bydd angen iddyn nhw gymryd rhyw fath o ddogfennaeth adnabod gyda nhw, rhaid iddyn nhw ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ynglŷn â chadw arfau yn ddiogel wrth deithio ac yn yr orsaf heddlu. Nawr ewch i gam 12. |
| **Cam 11** | Gallwch chi neu eich cynrychiolydd awdurdodedig ildio eich arfau mewn gorsaf heddlu ddynodedig, gan ddilyn y canllawiau yn y ddogfen hon ar gadw'r arfau'n ddiogel wrth deithio ac yn yr orsaf heddlu, a dilyn cyfarwyddiadau a roddir gan yr heddlu. Rhoddir cyfeirnod unigryw i chi neu'ch cynrychiolydd y dylech ei gadw'n ddiogel i'w ddefnyddio yn y dyfodol. |
| **Cam 12** | Bydd y Swyddfa Gartref yn dod i gysyllt â chi cyn gynted â phosibl ynglŷn â'ch hawliad iawndal. |

# Atodiad D: Ffurflen Hawlio Ildio ac Iawndal Cleddyf Ninja

Home Office Y Swyddfa Gartref

NPCC National Police Chiefs' Council

**FFURFLEN HAWLIO CYNLLUN ILDIO AC IAWNDAL**

(Byddwch cystal âsicrhau eich bod wedi darllen y canllawiau cysylltiedig cyn llenwi'r ffurflen hon)

CWBLHEWCH MEWN PRIFLYTHRENNAU

**RHAN A – Eich Manylion**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl** | | | |
| **Enw Cyntaf** | | | |
| **Cyfenw** | | | |
| **Dyddiad geni** | Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| **Eich Cyfeiriad** | Rhif y Tŷ | | |
| | Stryd | | |
| | Pentref, Tref neu Ddinas | | |
| | Sir | | |
| | Cod Post | | |
| **Rhif Cyswllt** | | | |
| **E-bost** | | | |

**RHAN B – Pwy ydych chi?**

**Manwerthwr** ☐

**Cyfanwerthwr** ☐

**Unigolyn Preifat** ☐

Os ydych chi'n fanwerthwr/cyfanwerthwr, rhowch enw eich cwmni:

**RHAN C - Prawf o Berchnogaeth**

Mae'n ofynnol i chi roi prawf eich bod yn berchen ar yr eitemau rydych chi'n hawlio iawndal ar eu cyfer cyn i'r Swyddfa Gartref ystyried eich hawliad.

**Ydych chi wedi darparu derbynneb fel prawf eich bod yn berchen ar neu wedi eich contractio i gaffael yr eitemau rydych chi'n hawlio iawndal amdanynt cyn y dyddiad cau?**

**Ydw** ☐

**Nac Ydw** ☐ Os ydych chi wedi ticio nac ydw, atebwch y cwestiynau isod.

**Os na allwch ddarparu derbynneb fel tystiolaeth o berchnogaeth neu gontract i'w gaffael, rhowch resymau pam.**

**Ydych chi'n gallu darparu tystiolaeth o berchnogaeth heblaw am dderbynneb? Os felly, eglurwch beth ydyw a'i chyflwyno gyda'r ffurflen hon.**

**RHAN D - Ydych chi eisiau hawlio iawndal ariannol am yr eitem(au) rydych yn eu hildio i'r heddlu? Ticiwch pa flwch sy'n berthnasol.**

**Ydw** ☐ Nawr ewch i Ran E o'r ffurflen hon.

**Nac ydw** ☐ Nawr ewch i Ran F o'r ffurflen hon.

**RHAN E – Eich cyfrif banc**

Bydd yr holl daliadau iawndal yn cael eu gwneud gan Drosglwyddiad BACS os penderfynir bod iawndal yn daladwy. Rhowch yma fanylion y cyfrif banc y bydd unrhyw iawndal a ddyfarnwyd i chi yn cael ei dalu iddo.

| | |
|---|---|
| **Enw deiliad y cyfrif** | |
| **Rhif y cyfrif** | |
| **Cod didoli'r banc** | |

**RHAN F – Datganiad a llofnod**

Rwy'n datgan fy mod wedi darllen y canllawiau ar gyfer y cynllun.

Rwy'n cadarnhau fy mod yn deall, wrth ildio'r eitem(au) a ddisgrifir yn y ffurflen hon i'r heddlu, fy mod wedi ildio unrhyw hawl i berchnogaeth neu ddefnydd o'r eitem(au)).

Ticiwch pa flwch sy'n berthnasol.

A. Ceisio am iawndal o £5 ☐

B. Ceisio am iawndal am swm uwch na £5 -
Rwy'n darparu tystiolaeth o werth i'r Swyddfa Gartref ei hystyried ☐

C. Ddim yn ceisio iawndal ☐

Hyd eithaf fy ngybodaeth a'm cred i, mae'r holl eitem(au) a ildiwyd fel rhan o'r cais hwn yn gymwys i gael eu talu o dan delerau cyhoeddedig y cynllun hwn.

Trwy lofnodi'r datganiad hwn, rwy'n awdurdodi'r heddlu i drosglwyddo'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen hon i'r Swyddfa Gartref at ddibenion prosesu unrhyw hawliad yr wyf yn ei wneud am iawndal ariannol.

Llofnod y perchennog cyfreithlon.................................... Dyddiad...……………….

**Rhan G – Person sy'n ildio'r eitem(au) os nad ef yw'r perchennog cyfreithiol**

Os ydych chi'n ildio'r eitem(au) ar ran y perchennog cyfreithiol, llenwch y ffurflen isod gyda'ch manylion. Mae hyn yn ychwanegol at lofnod y perchennog cyfreithiol uchod.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl** | | | |
| **Enw Cyntaf** | | | |
| **Cyfenw** | | | |
| **Dyddiad Geni** | Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
| **Eich Cyfeiriad** | Rhif Tŷ | | |
| | Stryd | | |
| | Pentref, Tref neu Ddinas | | |
| | Sir | | |
| | Cod Post | | |

Llofnod......................................................

Dyddiad…………………….

**RHAN H – At ddefnydd yr heddlu yn unig**

| Cyfeirnod unigryw y rhaglen: | Enw'r Arf | Yn ceisio iawndal? Rhowch Y/N | Os Y, ydych chi'n derbyn y swm o £5? | Os N, rhowch werth yr arf. |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Hawliad Iawndal:** | **£** |

**Atodiad A: Canllawiau ar gyfer llenwi'r Ffurflen Hawlio Ildio ac Iawndal cleddyfau Ninja**

Mae'r adran hon yn darparu canllawiau i unigolion sy'n llenwi'r ffurflen hon. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yng Ngorchymyn Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (Arfau Ymosodol) (Diwygio, Ildio ac Iawndal) (Cymru a Lloegr) 2025 ('Gorchymyn 2025') sydd ar gael ar www.gov.uk.c Fel arall, gallwch ofyn am gymorth yn yr orsaf heddlu lle rydych chi'n ildio'ch eitemau, gallwch e-bostio'ch cwestiwn i'r Swyddfa Gartref (bydd cyfeiriad e-bost yn cael ei gyhoeddi ar gov.uk).

**RHAN A – Eich manylion**

Defnyddiwch y Rhan hon i ddarparu'r manylion perthnasol yn y blychau cywir. Bydd angen i'r heddlu wirio eich hunaniaeth ac mae'n bwysig rhoi manylion cyswllt cywir fel y gellir cysylltu â chi ynglŷn â'ch hawliad(au) am iawndal. Gall eich rhif ffôn fod yn llinell dir neu'n ffôn teithiol.

Dylai Rhan A gynnwys cyfeiriad cyswllt e-bost. Mae angen cysylltu drwy e-bost er mwyn osgoi unrhyw oedi wrth ystyried hawliadau neu dalu iawndal.

**RHAN B – Ydych chi'n fanwerthwr/cyfanwerthwr/unigolyn.**

Defnyddiwch y Rhan hon i ddarparu'r manylion perthnasol. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu eich hawliad fel unigolyn neu fanwerthwr/cyfanwerthwr.

**RHAN C – Prawf o Berchnogaeth**

Defnyddiwch y Rhan hon i ddarparu'r manylion perthnasol. Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn prosesu eich hawliad os byddwch yn darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'ch hawliad.

**RHAN D – A ydych chi am hawlio iawndal ariannol am yr eitem(au) rydych chi'n ildio i'r heddlu?**

O dan Gynllun Ildio ac Iawndal Gorchymyn 2025, mae gan berchnogion cyfreithlon a chymwys Cleddyfau Ninja hawl i iawndal ariannol i dalu gwerth unrhyw eitem a ildiwyd.

Defnyddiwch y Rhan hon i nodi a ydych yn hawlio iawndal ariannol drwy dicio'r blwch perthnasol - 'Ydw' neu 'Nac Ydw'.

Sylwer, yn y Gorchymyn 2025, mae'r Swyddfa Gartref wedi gosod **£5** fel y swm safonol o iawndal a fydd yn cael ei dalu i berchnogion cyfreithlon eitemau sy'n cael eu hildio i'r heddlu o dan y cynllun hwn. Os ydych chi'n ystyried bod eich eitem yn werth mwy na swm safonol yr iawndal, mae'n agored i chi wneud hawliad am y swm uwch ac os ydych yn dymuno gwneud hynny rhaid i chi gyflwyno prawf prynu neu dystiolaeth arall o'r gwerth hwn. Bydd y dystiolaeth hon, y mae'n rhaid ei chyflwyno ar adeg ildio'r eitem mewn gorsaf ddynodedig yr heddlu, yn cael ei hanfon ymlaen i'r Swyddfa Gartref i'w hystyried ochr yn ochr â'ch hawliad iawndal. Bydd swm yr iawndal sy'n ddyledus i chi yn cael ei benderfynu gan y Swyddfa Gartref. Os yw eich hawliad am dros **£5** am unrhyw eitem unigol, bydd angen i chi gyflwyno prawf o brynu, ac argymhellir eich bod yn rhoi ffotograff o'r eitem hefyd. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'ch hawl bosibl a sut i hawlio iawndal yng **Ngorchymyn 2025** sydd ar gael yn www.gov.uk.

**RHAN E – Eich cyfrif banc**

Os penderfynir bod iawndal yn daladwy, byddwn yn cyhoeddi BACS ar gyfer y swm hwnnw i'w dalu i'r cyfrif a bennir yn Rhan E o'r ffurflen hon.

**RHAN F – Datganiad**

Mae'n ofynnol i chi gwblhau'r Rhan hon er mwyn cadarnhau mai chi yw perchennog cyfreithiol yr eitem(au) rydych chi'n ildio, ei bod wedi'i gaffael yn gyfreithlon a'ch bod yn gymwys i hawlio iawndal, os yw'n berthnasol, gan gynnwys eich bod wedi caffael perchnogaeth cyn y dyddiad cau. Dylech hefyd fod wedi darllen a sicrhau eich bod wedi deall y canllawiau ar gyfer y cynllun cyn llofnodi. Mae llofnodi'r Rhan hon hefyd yn arwydd eich bod yn deall, wrth ildio’r eitem(au) eich bod yn ildio'ch perchnogaeth. Os ydych yn hawlio iawndal ariannol, mae'n ofynnol i chi hefyd ddefnyddio'r Rhan hon i gadarnhau'r canlynol:

1. Byddwch yn derbyn y gwerth iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer eich eitem(au);

2. Ni fyddwch yn derbyn gwerth yr iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer eich eitem(au) ac yn ceisio swm uwch;

3. Byddwch yn derbyn gwerth yr iawndal a restrir yn y ddogfen hon ar gyfer rhai o'ch eitem(au) ond ni fyddwch yn derbyn gwerth yr iawndal a restrir ar gyfer eitem(au) eraill.

**4.** Rhaid i chi roi tic yn y blwch sy'n berthnasol i'ch cais. Os ydych yn hawlio iawndal am arf ymosodol, mae'n rhaid i chi fod yn berchennog cyfreithlon neu fod wedi eich contractio i'w gaffael ar neu cyn y dyddiad cau o **27 Mawrth 2025.**

Os ydych wedi caffael unrhyw un o'r eitemau uchod ar ôl y dyddiadau perthnasol, byddai angen i chi gael gwared ar yr eitemau yn ddiogel o hyd a dylech wneud hynny trwy eu hildio i'r heddlu. Fodd bynnag, ni fyddwch yn gymwys i hawlio iawndal o dan y cynllun hwn. Mae llofnodi'r datganiad hefyd yn cadarnhau eich bod yn cytuno gall yr heddlu drosglwyddo'r wybodaeth a gynhwysir yn y ffurflen hon i'r Swyddfa Gartref at ddibenion prosesu unrhyw hawliad rydych chi'n ei wneud am iawndal ariannol. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â’ch hawl bosibl a sut mae hawlio iawndal ar gael yng ngorchymyn 2025 sydd ar gael yn www.gov.uk.

**Atodiad B – Mae'r adran hon i'w chwblhau gan yr heddlu**

I'w gwblhau gan yr heddlu. Ar ôl ei gwblhau, bydd copi yn cael ei roi i'r hawlydd fel derbynneb.

| | |
|---|---|
| **Rhif cyfeirnod unigryw'r cais:**<br>**Fformat yw Cod Gorsaf yr Heddlu + Rhif Bwcio Eiddo mewn Cyfeirnod. E.e. XXX-123456** | |
| **Heddlu** | |
| **Enw'r swyddog neu'r staff sy'n ei dderbyn (argraffwch os gwelwch yn dda)** | |
| **Enw'r orsaf dderbyn** | |
| **Dyddiad derbyn** | |
| **Cadarnhawyd hunaniaeth yr hawlydd? (Y/N)** | |
| **Cadarnhawyd perchnogaeth yr hawlydd? (Y/N)** | |
| **Tystiolaeth o berchnogaeth cyn y dyddiad cau wedi'i roi? (Y/N)** | |
| **Manylion pob eitem a ildiwyd wedi'u cofnodi'n gywir? (Y/N) os na, defnyddiwch y blwch isod am fanylion** | |
| **A roddwyd prisiad o'r eitemau perthnasol a'i atodi? (Y/N)** | |
| **Datganiadau wedi'u cwblhau a'u llofnodi drwy gais (Y/N)** | |

| |
|---|
| **Sylwadau ychwanegol: Mae'r gofod hwn yma er mwyn i'r heddlu gofnodi unrhyw wybodaeth arall na chafodd ei roi mewn mannau eraill yn y ffurflen hon. Os oes angen, gellir cofnodi rhagor o fanylion ar dudalen arall.** |
| **At ddefnydd yr heddlu:** Ar ôl ei chwblhau, dylid anfon y ffurflen gyfan gyda'r holl ddogfennau ategol i gyfeiriad e-bost a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gov.uk maes o law (gyda rhif cyfeirnod unigryw'r hawliad am iawndal wedi'i ychwanegu at y llinell bwnc. Bydd y Swyddfa Gartref yn adolygu'r hawliad ac yn ymateb yn uniongyrchol i'r hawlydd i gadarnhau cynnydd a'r camau nesaf maes o law. Dylid rhoi copi neu lun o'r dderbynneb yn Atodiad B, wedi'i chwblhau, i'r hawlydd. |